



Yn y siopau

Mae'r gyfrol newydd Rhywbeth i'w Ddweud yn llwyfan i amrywiaeth o gyfranwyr bwysu a mesur grym y geiriau gan edrych hefyd ar pa mor greiddiol fu gwleidyddiaeth i'r sîn roc Gymraeg dros y deng mlynedd ar hugain ddiwethaf ac i ba raddau mae'r caneuon hyn wedi herio agweddau'r cyfnod.

Yn eu cyflwyniad, esbonia'r golygyddion Marged Tudur ac Elis Dafydd fod croesdoriad eang o ganeuon, o'r eiconig i'r rhai mwyaf anghyfarwydd, yn y casgliad hwn. Ac mae diffinio cân wleidyddol yn destun trafodaeth ynddi ei hun. Mae yna ddewisiadau amlwg, fel Gwesty Cymru, Geraint Jarman, Gwlad ar Fy Nghefn, Datblygu, ac Yma O Hyd, Dafydd Iwan, ac yna Cyn i'r Lle 'Ma Gau, gan y Bandana, cân nad yw'n amlwg yn un wleidyddol, ond fel cân wleidyddol y gwelodd Nici Beech hi. Mae dewis Dylan Meirion Roberts / Dyl Mei, sef Talu Bilis, Rodney Evans yn profi nad cenedlaetholdeb a'r Gymraeg yw unig destun ein cyfansoddwyr gwleidyddol.

Meddai Marged Tudur ac Elis Dafydd yn eu cyflwyniad:

"Mae'r geiriau'r caneuon a ddewisiwyd ar gyfer y gyfrol hon yn sicr wedi cyffwrdd â nerf ein cyfranwyr....A dechrau'r drafodaeth yw'r gyfrol hon, nid ei diwedd... Mae angen y drafodaeth er mwyn pwysleisio pwysigrwydd caneuon gwleidyddol fel bod yna awydd ymysg ein cantorion a'n cyfansoddwyr i ysgrifennu caneuon newydd ar adeg pan mae angen inni fynegi'n hunain yn wleidyddol yn fwy nag erioed o'r blaen."

Ochr yn ochr â phob erthygl, mae geiriau'r gân a drafodir. Dyma restr o'r caneuon dan sylw ac enwau'r awduron sy'n eu trafod:

Gwesty Cymru, Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr - Marged Tudur

“Dyma gân sy'n rhoi peltan a gwers wleidyddol bwysig i ni heddiw, fel ag y gwnaeth yn 1979. Dameg o gân yw hi - dameg Gwesty Cymru”.

Tân yn Llyn, Plethyn – Ifor ap Glyn

“Tân symbolaidd yw tân Ann Fychan, nid anogaeth i losgi tai”.

Yma o Hyd, Dafydd Iwan ac Ar Log – Pwyll ap Siôn

“Bu canu protest y 60au a'r 70au yn rhy barod i edrych yn ôl, ac i ymddiheuro a dweud 'sori ein bod ni yma'. Neges 'Yma O Hyd' yw ein bod ni'n gwrthod ymddiheuro”.

Cocaine, Steve Eaves a'i Driawd – Elis Dafydd

“Mae hi'n mynd i'r afael â holl gymlethodau meddu ar safbwynt gwleidyddol sy'n mynd yn erbyn y status quo”.

Gwlad ar fy Nghefn, Datblygu – Griff Lynch

“Mae hon yn fwy o gri am chwyldro, yn waedd am anhrefn, gan wfftio diflastod y sefydliad Cymraeg”.

Cymru, Lloegr a Llanrwst, Y Cyrff – Hefin Jones

“Ar un wedd, gellir diolch i Weinyddiaeth Amddiffyn Lloegr am ddefnyddio Cymru fel eu maes chwarae, gan na fyddai'r gân wefreddiol hon yn bodoli fel arall”.

Gwyddbwyll, Tystion – Aneirin Karadog

“.. riff sy'n nadreddu drwy'r clustiau a churiadau sy'n ddigon cadarn fel y gellid haeru eu bod wedi eu gwneud o haearn Sbaen, ynghlwm wrth fynegiant gwreiddiol nas clywyd o'r blaen yn Gymraeg”.

Gwreiddiau Dwfn, Super Furry Animals – Casi Wyn

“Ar adegau, mae'r rhythmau a'r symudiad melodaidd yn llusgo fel pe bai'n drosiad cerddorol i

gyfleu'r 'baich' honedig o gario baner diwylliant Cymraeg gyda chi bob amser”.

Talu Bils, Rodney Evans – Dylan Meirion Roberts

“Rydan ni'n cael mwy o wirionedd am fyw heddiw ac am y byd sydd ohoni mewn un gân a recordiwyd mewn parti, nag rydan ni'n ei gael gan y cyfryngau”

Cyn i'r Lle 'Ma Gau, Y Bandana – Nici Beech

“..dwi'n ei gosod yn un o ganeuon mwyaf anthemig, cadarnhaol ac eangfrydig ei chyfnod”.

Bydd y sesiynau canlynol yn cael eu cynnal i ddathlu cyhoeddi'r gyfrol :

1/7/17 – 17.10

Tafwyl, Caerdydd, Y Lolfa Lân, mewn partneriaeth â Llan Cymru.

Gwesty Cymru - Marged Tudur ac Elis Dafydd yn holi Geraint Jarman

8/7/17 - 13.30

Gerddi'r Emporiwm , Gwyl Arall, Caernarfon.

Cyn i'r Lle 'Ma Gau – Nici Beech yn sgwrsio â Gwilym Bowen Rhys, yng nghwmni golygyddion y gyfrol.

9/7/17 – 13.30

Gerddi'r Emporiwm, Gwyl Arall, Caernarfon.

Talu Bils, Rodney Evans - Dyl Mei yn sgwrsio â'r golygyddion

9/7/17 - 16.30

Wzo Ac Olewydd, Gwyl Arall, Caernarfon.

Tân yn Llyn ac Yma o Hyd - Marged Tudur ac Elis Dafydd yn holi Ifor ap Glyn a Dafydd Iwan.

9/8/17 – 12.30

Caffi Maes B, Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn.

Gwlad Ar Fy Nghefn, Datblygu - Griff Lynch yn sgwrsio â Pat Morgan, Datblygu ac Emyr Glyn Williams. Sesiwn yng nghwmni golygyddion y gyfrol.

10/8/17 – 14.00

Ty Gwerin, Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn.

Tân yn Llyn, Plethyn – Sesiwn yng nghwmni Ifor ap Glyn, y gantores Linda Griffiths, awdur y geiriau Ann Fychan, a golygyddion y gyfrol.

£8.95